CRYNODEB GWEITHREDOL

# ffordd well o weithio cymru



PECYN O ADNODDAU ADDYSGOL I'W DEFNYDDIO MEWN YSGOLION YNG NGHYMRU

WALES TUC CYMRU

helpu i baratoi pobl ifanc ar gyfer y byd gwaith

## cydnabyddiaeth

Paratowyd y deunyddiau hyn yn wreiddiol gan Julia Fiehn ac Andrew Miller, Canolfan Addysg a Diwydiant, Prifysgol Warwick. Fe'u haddaswyd ers hynny gan yr Athro Andrew Miller, Cyfarwyddwr Active Learning Research Associates Ltd.

Hoffai'r TUC gydnabod cyfraniadau'r undebau llafur, yr ysgolion, y colegau, yr athrawon a'r myfyrwyr a helpodd i gynhyrchu argraffiad cyntaf y pecyn hwn.

Hoffai TUC Cymru ddiolch yn arbennig i Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS), Llywodraeth Cynulliad Cymru a Robert Goddard (Trefnydd Ieuenctid, TUC Cymru) am eu cymorth wrth baratoi'r fersiwn ddiwygiedig at ddefnydd yng Nghymru.

© Cyngres Undebau Llafur (TUC) 1997, 2001, 2003, 2006, 2009.

Mae'r hawlfraint wedi'i godi ar ddeunyddiau i fyfyrwyr yn unig. Gellir llungopïo'r deunyddiau hyn i'w defnyddio mewn ysgolion, colegau, clybiau ieuenctid a sefydliadau addysgol eraill at bwrpasau addysgol a hyfforddiant.



## rhagair y gweinidog

Mae'n falch gennyf gefnogi'r pecyn adnoddau addysgol hwn ac rwy'n gobeithio y bydd yn ddefnyddiol i chi. Mae'n gwneud cyfraniad pwysig at sicrhau bod pob dysgwr ifanc yn meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i gymryd rhan lawn yn yr amgylchedd gwaith.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi mabwysiadu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn fel sail ar gyfer ei gwaith dros blant a phobl ifanc. Mae ymagwedd gyffredinol y Cynulliad at addysg a dysgu gydol oes wedi'i gosod o fewn y cyd-destun hwn sy'n seiliedig ar hawliau, lle y dylai pob plentyn a pherson ifanc gael cyfle i gyrraedd ei botensial llawn.

Rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod pob dysgwr yn derbyn addysg gytbwys a fydd yn rhoi i'n pobl ifanc y sgiliau y mae eu hangen arnynt ar gyfer bywyd yn yr unfed ganrif ar hugain. I gefnogi hyn, mae'r cwricwlwm ysgol yng Nghymru yn sicrhau sylfaen gadarn ar gyfer addysgu a dysgu effeithiol ac yn gweithredu ar ein hymrwymiad yn *Cymru'n Un: Rhaglen flaengar ar gyfer llywodraethu Cymru* i ddatblygu rhaglen unigryw ar gyfer pob dysgwr sy'n briodol i Gymru.

Mae gan ysgolion a darparwyr dysgu eraill rôl ganolog i'w chwarae o ran rhoi i bobl ifanc y sgiliau y bydd eu hangen arnynt i reoli eu bywyd gwaith yn y dyfodol, dyfodol sy'n debygol o weld llawer o newid. Mae'r gweithgareddau yn yr adnodd hwn yn cwmpasu materion pwysig am fywyd gwaith, gan gynnwys hawliau a chyfrifoldebau yn y gweithle, ac maent yn rhoi'r wybodaeth a'r sgiliau hanfodol y bydd eu hangen ar bobl ifanc pan fyddant yn ymuno â'r byd gwaith.



Jane Hutt AC
Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau



## neges gan TUC Cymru

Mae'n bleser mawr gen i gyflwyno ffordd well o weithio cymru – adnodd dysgu at ddefnydd ysgolion Cymru fydd yn help i baratoi pobl ifainc ar gyfer ymuno â byd gwaith.

Â chyflogaeth yn gynyddol bwysig i bobl ifainc, ac wrth i bobl ifainc gael eu profiad cyntaf o fyd gwaith tra'u bod nhw'n dal yn yr ysgol, mae hi'n hollbwysig bod ganddyn nhw ddealltwriaeth glir o'u hawliau a'u cyfrifoldebau yn y gweithle.

Fodd bynnag, dechrau pethe'n unig yw hynny – mae angen i bobl ifainc ddeall rôl cyflogwyr fel dinasyddion da a chanddynt gyfrifoldeb cymdeithasol clir. Y cyfrifoldeb hwn sydd wrth galon ein gwerthoedd undebol ni: byw mewn cymdeithas deg a chyfiawn adref a thramor, gweithio mewn lleoedd gwaith sydd yn ddiogel a iach a chael gafael ar wasanaethau hyfforddiant a datblygiad, a gwobrau haeddiannol.

Bydd y deunyddiau yn y pecyn hwn hefyd yn helpu pobl ifainc i sylweddoli bod agwedd gydweithredol at fyd gwaith yn help nid yn unig i'r unigolyn dan sylw ond hefyd yn creu gwell amgylchfyd i bawb.

Mae'r pecyn hwn yn cyflwyno'r nifer o bynciau y mae angen i bobl ifainc wybod amdanyn nhw cyn mentro i fyd gwaith a'r modd y gall undebau llafur fod o gymorth iddynt. Gyda chymorth Llywodraeth Cynulliad Cymru, rydym ni wedi sicrhau bod y fersiwn hon yn ateb gofynion 'Gyrfaoedd a byd gwaith: fframwaith ar gyfer pobl ifainc 11 i 19 oed yng Nghymru' a'i bod yn helpu i ddatblygu'r sgiliau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd yn gysylltiedig ag Addysg Bersonol a Chymdeithasol (PSE) yng Nghyfnod Allweddol 4.

Dw i'n gobeithio y cewch chi'r pecyn hwn yn un defnyddiol.



Martin Mansfield
Ysgrifennydd Cyffredinol

## ynglŷn â'r deunyddiau

Mae ffordd well o weithio cymru yn becyn o ddeunyddiau addysgol i helpu i baratoi pobl ifanc ar gyfer byd gwaith. Mae'r deunyddiau yn cyd-fynd ag amcanion y fframwaith ar gyfer gyrfaoedd a'r byd gwaith i bobl ifanc 11 i 19 oed, Craidd Dysgu Llwybrau Dysgu 14–19 a gofynion craidd Bagloriaeth Cymru. Mae rhai o'r gweithgareddau'n addas ar gyfer pobl ifainc sydd yn mynychu clybiau ieuenctid a chanolfannau hyfforddiant byd gwaith. Byddant o gymorth hefyd i ysgolion o ran ateb y gofynion statudol i ddarparu rhaglen o hyfforddiant gwaith i bob myfyriwr yng Nghyfnod Allweddol 4.

Datblygwyd argraffiad cyntaf y pecyn hwn gan y TUC, ar y cyd ag undebau llafur cysylltiedig. Cynhaliwyd ymgynghoriad â staff arbenigol undebau llafur ynglŷn â'r gweithgareddau arbennig yn y pecyn ac fe ddarparwyd gwybodaeth ar ei gyfer gan y TUC a chanolfannau gwybodaeth undebau llafur. Cafodd y deunyddiau eu profi trwy gyfrwng cyfres o grwpiau ffocws yng Nghymru a Lloegr. Ers cyhoeddi'r pecyn cyntaf, fe'i dosbarthwyd yn eang ledled Lloegr. Cynhyrchwyd fersiwn wedi'i haddasu ar gyfer yr Alban ac yn awr dyma fersiwn i Gymru.

Mae'r argraffiad hwn yn cymryd i ystyriaeth y newidiadau mwyaf diweddar yn y ddeddfwriaeth ar gyflogaeth ac mae'r deunyddiau enghreifftiol yn yr astudiaethau achos wedi'u diweddaru i adlewyrchu datblygiadau newydd yn y gweithle.

Mae'r deunyddiau'n cynnwys gweithgareddau sydd yn ymdrin â phynciau pwysig ym myd gwaith a bywyd yn y gweithle. Nid yw'r gweithgareddau'n ymdrin yn gynhwysfawr â'r materion hyn yn y modd y disgwylid ei weld mewn gwerslyfr; maent wedi'u bwriadu i lanw bylchau yn y deunyddiau sydd ar gael ar hyn o bryd i ysgolion a cholegau. Mae nifer o'r gweithgareddau'n rhoi persbectif undebau llafur ond mae'r awduron wedi ceisio sicrhau bod y materion yn cael eu trin mewn modd teg a chytbwys a'u bod yn cyd-fynd â chanllawiau'r Cyngor Defnyddwyr Cenedlaethol gynt ar ddeunyddiau wedi'u noddi/cynhyrchu gan sefydliadau diwydiant*.

* Pan gyhoeddwyd y canllawiau hyn, nid oedd y corff hawliau defnyddwyr newydd, Consumer Focus, yn gallu cadarnhau a oedd y canllawiau dan sylw wedi'u mabwysiadu gan y sefydliad newydd ai peidio.

## amcanion addysg a chanllawiau gyrfaoedd

Mae ffordd well o weithio cymru yn ategu amcanion cyffredinol addysg a chanllawiau gyrfaoedd i bobl ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru, fel y'u diffinnir nhw yn Gyrfaoedd a'r byd gwaith: fframwaith i bobl ifanc 11 i 19 oed yng Nghymru (APADGOS 2008).

Y nod yw helpu pobl i:

- archwilio'r agweddau a'r gwerthoedd sydd eu hangen ar gyfer cyflogadwyedd a dysgu gydol oes
- cynllunio a rheoli eu llwybr trwy ystod o gyfleoedd ym myd dysgu a byd gwaith
- gwneud dewisiadau gyrfa effeithiol
- bod yn entrepreneuraidd
- ffynnu mewn amrywiaeth o leoliadau gwaith
- dangos cymhelliant, gosod nodau tymor hir a gorchfygu rhwystrau
- gweld bod eu hastudiaethau yn berthnasol i'w bywyd a'u gwaith
- datblygu Sgiliau Allweddol a sgiliau eraill y mae cyflogwyr yn gofyn amdanynt
- paratoi ar gyfer sialensiau, dewisiadau a chyfrifoldebau gwaith a bywyd fel oedolyn.

## addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) yng nghyfnod allweddol 4

Mae'r gweithgareddau yn ffordd well o weithio cymru hefyd yn helpu i ddatblygu sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth sydd yn gysylltiedig ag ABCh yng Nghyfnod Allweddol 4.

Un o nodau allweddol y Fframwaith addysg bersonol a chymdeithasol ar gyfer dysgwyr 7 i 19 oed yng Nghymru (APADGOS 2008) yw paratoi'r dysgwyr ar gyfer y sialensiau, y dewisiadau a'r cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â gwaith a bywyd oedolyn.

Mae'r thema 'Paratoi ar gyfer dysgu gydol oes' yn cyflwyno'r prif gyd-destunau ar gyfer paratoi dysgwyr ar gyfer dewisiadau ym maes addysg a bywyd.

Gellir helpu'r dysgwyr i wella'u dysgu a datblygu eu potensial a'u galluoedd ym maes dysgu gydol oes. Mae hynny'n cynnwys datblygu sgiliau rheoli personol a sgiliau ymarferol sylfaenol sy'n angenrheidiol ar gyfer bywyd o ddydd i ddydd. Mae angen cymorth ar y dysgwyr i ddatblygu sgiliau dysgu effeithiol a dealltwriaeth o'u prosesau dysgu eu hunain. Mae angen cymorth arnynt i ddatblygu sgiliau hunanddadansoddi, myfyrio ynghylch cynnydd, nodi cryfderau a gwendidau a phennu targedau ar gyfer gwella. Mae angen cymell y dysgwyr i feithrin brwdfrydedd ac ymrwymiad mewn perthynas â dysgu gydol oes. Mae angen i ddysgwyr wybod y gwahaniaeth rhwng gwaith gyda thâl a gwaith heb dâl a chydnabod pwysigrwydd caffael y sgiliau newydd hynny sy'n hanfodol mewn byd gwaith sy'n gystadleuol ac sy'n newid yn gyflym.

Yng Nghyfnod Allweddol 4 mae'r fframwaith ABCh yng Nghymru yn darparu cyfleoedd i'r dysgwyr ddeall:

- egwyddorion y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol
- y cyfleoedd sydd ar gael i bobl ifanc gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau ar lefel leol a chenedlaethol
- materion a digwyddiadau cyfoes ar lefel leol a byd-eang
- y cyfleoedd perthnasol sydd ar gael iddynt ym maes addysg a hyfforddiant
- eu hawliau fel defnyddwyr a'u cyfrifoldebau o safbwynt rheoli cyllideb
- sut i fod yn gyfrifol yn bersonol am newid eu ffordd o fyw eu hunain fel ymateb i faterion lleol a byd-eang
- cyd-ddibyniaeth systemau economaidd byd-eang ac effeithiau datblygiadau dynol ar systemau naturiol
- y tensiynau rhwng twf economaidd, datblygu cynaliadwy ac anghenion dynol sylfaenol, e.e. achosion anghydraddoldeb o fewn a rhwng cymdeithasau.

Mae ffordd well o weithio cymru hefyd yn darparu cyd-destun ar gyfer y sgiliau ABCh hynny y dylai fod yna gyfle i ddysgwyr eu datblygu yn ystod Cyfnod Allweddol 4. Mae'r rhain fel a ganlyn:

- defnyddio gwybodaeth flaenorol i esbonio'r cysylltiadau rhwng achos ac effaith, a rhagfynegi
- dadansoddi gwybodaeth a syniadau er mwyn asesu tuedd, dibynadwyedd a dilysrwydd
- ystyried gwahanol safbwyntiau wrth wneud penderfyniadau a dewisiadau gwybodus yn effeithiol
- gwrando'n graff mewn ystod o sefyllfaoedd ac ymateb yn briodol
- cyfleu teimladau a safbwyntiau personol yn effeithiol mewn ystod eang o sefyllfaoedd gan ddefnyddio ystod o ddulliau addas
- gwerthfawrogi safbwyntiau eraill, myfyrio yn eu cylch, a'u gwerthuso'n feirniadol
- gweithio'n annibynnol ac ar y cyd ag eraill i gynllunio a chwblhau ystod o dasgau
- myfyrio ar y rolau i'w chwarae mewn sefyllfaoedd grŵp, gan gynnwys arweinyddiaeth
- gwerthuso ystod o ffynonellau gwybodaeth, cymorth a chyngor ar geir ar lefel leol a chenedlaethol a chael mynediad iddynt yn hyderus.

## gyrfaoedd a'r byd gwaith (GBG)

O fis Gorffennaf 2008, mae gofyn i ysgolion yng Nghymru ddarparu rhaglen o addysg gysylltiedig â gwaith i bob person ifanc rhwng 11 a 19 oed. Mae Gyrfaoedd a'r byd gwaith: fframwaith i bobl ifanc 11 i 19 oed yng Nghymru (APADGOS 2008) yn cyfuno ac yn diweddaru fframweithiau blaenorol ar gyfer addysg gysylltiedig â gwaith, ac addysg a chyfarwyddyd gyrfaoedd. Dylai darparwyr dysgu seilio'u darpariaeth ar y fframwaith diwygiedig, sydd yn anelu at symud y ffocws yn fwy cadarn tuag at sicrhau bod pobl ifanc yn barod i gymryd eu safle mewn byd gwaith sy'n cyflym newid yn yr economi fyd-eang.

Mae ffordd well o weithio cymru yn helpu ysgolion a darparwyr dysgu eraill i ddarparu'r elfennau a nodir yn fframwaith GBG:

- Cyflawniad personol
- Ceisio gwybodaeth
- Deall y byd gwaith
- Arweiniad
- Gwneud a gweithredu penderfyniadau.

## profiad gwaith a darparu hyfforddiant

Mae cyfnod o brofiad gwaith bellach yn rhan greiddiol o gwricwlwm Cyfnod Allweddol 4 yn y rhan fwyaf o ysgolion. Mae 97% o bobl ifanc yn cael profiad gwaith o ryw fath yn ystod blynyddoedd 10 ac 11, hyd yn oed os nad yw'r cyfnod hwnnw'n fwy nag wythnos o hyd. Yn gynyddol, i bobl ifainc sydd yn dilyn cyrsiau galwedigaethol, mae profiad gwaith yn golygu cyfnodau estynedig naill ai yn y gweithle neu gyda darparwyr hyfforddiant, gan gynnwys colegau. Mae cynllun Prentisiaeth Ifanc yn darparu ffocws galwedigaethol clir ac yn cynnwys rhyw 50 dydd o brofiad gwaith yng ngweithle'r cyflogwr. Bydd y Diploma arbenigol, fydd yn cael ei gyflwyno'n raddol o 2008 ymlaen, yn golygu o leiaf wythnos o brofiad gwaith ar lefelau 1, 2 a 3.

Er bod gan rhai pobl ifainc swyddi rhan-amser neu ar benwythnosau, yn 15 oed ychydig iawn o brofiad sydd gan lawer o fyd gwaith ac maen nhw'n gymharol ddihyder o ran eu profiad gwaith. Mae ysgolion yn cynnig rhaglenni amrywiol er mwyn rhoi blas o fyd gwaith i bobl ifanc. Mae ffordd well o weithio cymru yn darparu tasgau a gweithgareddau y gall athrawon eu defnyddio i baratoi myfyrwyr ar gyfer cyfnodau profiad gwaith, er mwyn hybu dealltwriaeth a sgiliau a datblygu'u hyder.

Gellir dethol o blith y deunyddiau hyn er mwyn eu defnyddio ymhob cyd-destun galwedigaethol a phrofiad gwaith.

## cynnwys yr unedau

Mae gan ffordd well o weithio cymru bum uned.

Uned 1: **UNDEBAU LLAFUR YN Y GWAITH**

Uned 2: **HAWLIAU A CHYFRIFOLDEBAU YN Y GWAITH**

Uned 3: **CYDRADDOLDEB A HAWLIAU DYNOL YN Y GWAITH**

Uned 4: **IECHYD A DIOGELWCH**

Uned 5: **DYFODOL GWAITH**

Mae i bob uned yr un strwythur, sydd yn cynnwys:

Nodiadau i Arweinwyr Grŵp sydd yn disgrifio cynnwys yr uned a'r deilliannau dysgu i fyfyrwyr. Mae gwybodaeth gefndirol yn darparu cymorth ychwanegol i athrawon.

Gweithgaredd Cychwynnol sydd yn cyflwyno'r testun neu'r thema dan sylw yn yr uned ac yn cysylltu'n agos â GBG ac ABCh.

Gweithgaredd Paratoi ar gyfer Profiad Gwaith sydd yn cysylltu'n uniongyrchol â'r profiad gwaith ac a all fod yn rhan o'r rhaglen o baratoad.

Astudiaethau Achos sydd yn cyflwyno pynciau'n ymwneud â'r testun dan sylw yn seiliedig ar enghreifftiau go iawn, ac yn annog myfyrwyr i drafod effeithiau'r testun ar weithwyr. Mae un astudiaeth achos yn cysylltu'n uniongyrchol â chyrsiau TGAU Cymhwysol.

Aseiniad sydd yn ymwneud â myfyrwyr yn y gweithle ac yn galluogi iddyn nhw gasglu tystiolaeth o'r sgiliau allweddol a ddysgwyd.

Nodiadau Briffio i Undebwyr Llafur ac Ymwelwyr Eraill, sydd yn darparu gwybodaeth gefndirol ynglŷn â'r modd y gall undebwyr llafur ac ymwelwyr eraill, fel cyflogwyr a chynghorwyr gyrfaol, fod o gymorth i athrawon yn y dosbarth.

Efelychiad, sydd yn weithgaredd estynedig i danio diddordeb y myfyrwyr. Mae'r efelychiad yn cynnwys arweiniad ynglŷn â sut i gynnwys ymwelydd o undeb llafur yn y broses o werthuso'r gweithgaredd.

Mae'r pum efelychiad fel a ganlyn:

Cyflog Byw, gweithgaredd rhwydweithio lle mae myfyrwyr yn gweithio mewn grwpiau rôl i ddanfon a derbyn negeseuon gan grwpiau eraill. Mae'r negeseuon yn sôn am y cyflogau isel gaiff eu talu i staff diogelwch a staff glanhau ar gytundeb. Mae'r pynciau a grybwyllir yn cynnwys 'cyflog byw' (o'i gymharu ag Isafswm Cyflog), tendro cystadleuol, cydnabyddiaeth undebol ac effaith oriau anghymdeithasol/cyflogau isel ar fywyd teuluol.

Bwlïo, set o weithgareddau chwarae rôl i bedwar person wedi'u gosod yng nghyd-destun y diwydiant arlwyo. Mae bwlïo yn y gweithle yn fater cyfoes o bwys ac yn arbennig o berthnasol i brofiad myfyrwyr mewn ysgolion.

Dethol Rai, lle mae myfyrwyr yn chwarae rôl aelodau o banel dethol i ddewis rhwng ymgeiswyr am amrywiol swyddi manwerthu. Mae'r efelychiad yn codi nifer o bynciau'n ymwneud â chyfle cyfartal.

Archfarchnad Goodlife, lle mae'r myfyrwyr yn chwarae rôl aelodau o bwyllgor iechyd a diogelwch mewn archfarchnad. Rhaid mynd i'r afael â nifer o bynciau cyfoes, gan gynnwys straen, trais yn y gweithle ac anafiadau'n deillio o straen parhaol ('repetitive strain injury').

Gwrthod Dim, Derbyn Dim, lle mae myfyrwyr yn chwarae rôl staff a thîm rheoli awdurdod lleol sydd yn ceisio cyflwyno ffyrdd 'hyblyg' newydd o weithio. Maen nhw'n dysgu am fanteision ac anfanteision newid arferion gwaith.

## defnyddio ffordd well o weithio cymru

Mae'r pecyn wedi'i gynllunio i fod yn adnodd hyblyg y gellir ei ddefnyddio mewn amrywiaeth o ffyrdd.

### a) Digwyddiadau Diwydiant, Menter neu Yrfaoedd a'r Byd Gwaith

Gellid defnyddio gweithgareddau unigol o bob un o'r pum adran gyda grwpiau o fyfyrwyr ar 'ddiwrnodau menter', neu 'ddiwrnodau diwydiant'. Yn ystod digwyddiadau o'r fath, mae ysgolion a cholegau'n gwahodd pobl o'r gymuned leol i weithio gyda grwpiau o fyfyrwyr er mwyn eu helpu nhw i ddeall gwahanol agweddau ar y byd gwaith a'r gymuned leol. Mae'r efelychiadau yn y pecyn yn ddelfrydol ar gyfer digwyddiadau allgyrsiol arbennig o'r math hwn.

### b) Rhaglenni GBG ac ABCh mewn ysgolion

Mae'r rhannau perthnasol o fframweithiau GBG ac ABCh wedi'u cynnwys ar ddechrau'r arweiniad. Mae'r gweithgareddau wedi'u cynllunio i fod yn rhan o wers o ryw 45 munud o hyd. Os oes slotiau hirach ar gael, gall yr efelychiadau ddyfnhau dealltwriaeth y myfyrwyr o'r pynciau a'u helpu nhw i ddatblygu sgiliau perthnasol. Yn gynyddol, mae disgwyl i fyfyrwyr leisio barn yn eu sefydliadau. Mae llais y myfyriwr yn ffactor pwysig wrth geisio gwella darpariaeth addysgol a gwella agweddau ar weinyddiaeth a rheolaeth y sefydliad. Gall y deunyddiau yn ffordd well o weithio cymru helpu i baratoi myfyrwyr i ymarfer 'codi llais'.

### c) Rhaglenni GBG ac ABCh ôl-16 mewn ysgolion, colegau a sefydliadau hyfforddi

Anogir darparwyr dysgu a hyfforddiant ôl-16 i gyflwyno cynlluniau GBG ac ABCh yn rhan o ddarpariaeth y Craidd Dysgu 14–19. Mae GBG ac ABCh hefyd yn elfennau craidd ym Magloriaeth Cymru.

### ch) Paratoi ar gyfer Profiad Gwaith

Mae'r deunyddiau wedi'u paratoi'n benodol at gael eu defnyddio i baratoi ar gyfer profiad gwaith. Mae pob adran yn cynnwys gweithgaredd y gellir ei ddefnyddio i godi ymwybyddiaeth y myfyrwyr o bynciau penodol cyn iddyn nhw ddechrau cyfnod o brofiad gwaith; mae yna aseiniad y gall y myfyrwyr ei gwblhau yn ystod y cyfnod hefyd.

### d) Cyrsiau galwedigaethol

Mae cymwysterau NVQ, TGAU Cymhwysol, a TAG mewn pynciau galwedigaethol yn fwyfwy cyffredin yng nghwricwlwm Cyfnod Allweddol 4 ac mae ysgolion, colegau a hyfforddwyr galwedigaethol fel ei gilydd yn eu darparu. Dylai pob cwrs galwedigaethol baratoi myfyrwyr ar gyfer byd gwaith. Yn wir, bydd rhai myfyrwyr ar y cyrsiau hyn yn cwblhau cyfnodau o brofiad gwaith estynedig yn rhan greiddiol o'r rhaglen addysg. Gellir defnyddio'r gweithgareddau a'r efelychiadau yn y deunyddiau i gyflwyno amrywiaeth o bynciau galwedigaethol er mwyn i'r myfyrwyr eu hastudio a'u hystyried.

## adnoddau a chysylltiadau

Bydd TUC Cymru ac undebau llafur unigol yn fwy na bodlon darparu gwybodaeth bellach am y pynciau a godir yn y pecyn hwn. Mae gan TUC Cymru wefan sydd yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf, www.wtuc.org.uk ac fe ellir cael gwybodaeth am undebau llafur sydd yn gysylltiedig â TUC Cymru gan

**TUC Cymru, Transport House, 1 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9SD**
**Ffôn: 020 2034 7010; Ffacs: 020 2022 1940.**

Byddai cyfraniadau gan undebwyr llafur yn cyfoethogi nifer o'r gweithgareddau yn y pecyn hwn. Mae gan undebau llafur wybodaeth sydd yn debygol o fod yn werthfawr iawn mewn trafodaethau am fyd gwaith. Cysylltwch os gwelwch yn dda â TUC Cymru, gan ddefnyddio'r manylion uchod, os hoffech chi i undebwr llafur lleol gymryd rhan yn y sesiynau a gynhwysir yn y pecyn hwn.

Mae nifer o bamffledi am hawliau gweithwyr ar gael o linell gymorth 'Gwybod eich Hawliau', rhif ffôn: 0870 600 4882. Gellir cael gafael arnyn nhw hefyd trwy wefan y TUC.

Mae'r pamffledi'n cynnwys:

*Wynebu Colli'ch Swydd*
*Ymdopi â'r Cwymp Economaidd*
*Tâl a Hawliau Mamolaeth*
*Tâl a Hawliau i Dadau*
*Tâl a Hawliau wrth Fabwysiadu*
*Gweithio hyblyg i rieni*
*Seibiant o'r gwaith i deuluoedd*
*Terfyn ar oriau hirion*
*Tâl Gwyliau a chyfnodau sabothol*
*Gweithio ym Mhrydain: hawliau gweithwyr ymfudol (*ar gael yn Saesneg, Tsiec, Estoneg, Hwngareg, Latfieg, Lithwaneg, Pwyleg, Rwsieg, Slofeneg, Ffrangeg a Sbaeneg*)*
*Pobl ifainc yn y gwaith*
*Mae gan weithwyr asiantaeth hawliau hefyd!*
*Yma i chi: cynrychiolaeth undebol yn y gwaith*
*Eich hawliau wrth weithio o'ch cartref*
*Preifatrwydd yn y gwaith*

Gellir cael hyd i fwy o wybodaeth ddefnyddiol am hawliau yn y gwaith ar wefan TUC Worksmart (www.worksmart.org.uk). Mae llyfryn am ddim, *Unions at work*: *a guide to modern trade unionism and the TUC*, hefyd ar gael gan y TUC.